## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r strategaeth hon wedi'i chydgynhyrchu gyda phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Mae hyn yn golygu bod pobl hŷn wedi cyfrannu at greu'r ddogfen hon o'r cychwyn cyntaf - maent wedi llywio'i chynllun a'i datblygiad ac yn y pen draw byddant yn rhan o'i chyflawni. Arweiniwyd y gwaith cychwynnol gan Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio, y mae ei haelodaeth yn cynnwys 50% o bobl hŷn. Yn 2018 cynullodd y fforwm 5 gweithgor i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol yr oedd yr aelodau'n teimlo bod yn rhaid inni eu cael yn iawn wrth gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio: trafnidiaeth; cyfranogiad; tai; gwireddu hawliau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd aelodau'r gweithgorau yn cynnwys pobl hŷn, academyddion blaenllaw, a chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Cynrychiolwyd y Comisiynydd Pobl Hŷn ar bob grŵp hefyd.

Er mwyn adeiladu ar y gwaith a gychwynnwyd gan y Fforwm, dros y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom gynnwys mwy na 1000 o bobl hŷn mewn sgwrs am heneiddio. Ymwelwyd â grwpiau cenedlaethol a fforymau lleol a chymerodd pobl hŷn ran hefyd mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned dan arweiniad Age Cymru. Fe wnaethom hefyd gomisiynu Age Cymru i gynnal grwpiau ffocws gyda phobl hŷn o grwpiau lleiafrifol. Yn ystod y pandemig, parhawyd i ymgysylltu â phobl hŷn drwy'r Fforwm, y Comisiynydd Pobl Hŷn ac arolygon o brofiadau pobl hŷn yn ystod y cyfnod clo dan arweiniad Age Cymru a phum sefydliad pobl hŷn cenedlaethol – Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol, y Fforwm Pensiynwyr Cenedlaethol, Cymru Egnïol a Senedd Pobl Hŷn Cymru. Byddwn hefyd yn parhau â'n cyfarfodydd rheolaidd â staff awdurdodau lleol sy'n arwain ar bolisi ar gyfer pobl hŷn.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Fel yr amlinellwyd uchod, datblygwyd y strategaeth mewn cydweithrediad â phobl hŷn, academyddion blaenllaw a chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Drwy'r broses ddatblygu gadarn hon, rydym wedi gallu sicrhau na fydd y strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol ar bobl hŷn.

Yr effaith fwyaf cadarnhaol fydd creu cymdeithas lle gall pobl edrych ymlaen at heneiddio gan deimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael yn hawdd os bydd angen. Ein nod yw cyflawni hyn drwy weithredu ar draws y llywodraeth a'r sectorau. Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar ba mor dda yr ydym yn heneiddio ac wedi datblygu metrigau ar gyfer mesur llwyddiant.

Un o effeithiau mwyaf cadarnhaol y strategaeth fydd herio'r naratif sy'n gysylltiedig â phobl hŷn fel y gellir eu cydnabod am y cyfraniadau a wnânt yn hytrach na'u hystyried yn dreth ar gymdeithas. Bydd annog awdurdodau lleol i fod yn aelodau o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Sy'n Ystyriol o Oedran hefyd yn creu effeithiau cadarnhaol gan mai'r meini prawf ar gyfer aelodaeth yw dangos bod pobl hŷn yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflawni polisïau.

### 8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;**

Y 7 nod llesiant yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r strategaeth hon yn rhychwantu ystod eang o feysydd polisi, o iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn sy'n byw gydag anghenion cymhleth i gefnogi gofalwyr o oedran gweithio a'r economi sylfaenol. Mae'r weledigaeth genedlaethol hon ar gyfer Cymru o blaid pobl hŷn yn cwmpasu'r lleoedd y mae pobl yn gweithio ynddynt, eu hawliau, eu perthynas â’u teuluoedd, eu cymunedau lleol a llywodraethau. Mae hefyd yn cynnwys y berthynas sydd gennym ar draws y cenedlaethau, a'i nod yw herio a newid y ffordd rydym yn meddwl am heneiddio.

Mae pedwar nod y strategaeth yn cyd-fynd yn agos â'r nodau llesiant:

- *Nod 1: Gwella llesiant* – sy’n cynnwys camau i greu Cymru iachach drwy wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl a thrwy wella cymorth i ofalwyr di-dâl.
- *Nod 2: Gwella gwasanaethau lleol ac amgylcheddau* - tai, systemau trafnidiaeth a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig sy'n effeithio'n sylfaenol ar ba mor dda rydym yn byw ac yn heneiddio. Mae sicrhau ein bod yn cael yr elfennau hanfodol hyn o'n cymdeithas yn iawn yn ffactor sy'n diffinio pa mor llwyddiannus yr ydym wrth gyflawni ein gweledigaeth o Gymru o blaid pobl hŷn.
- *Nod 3: Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl* – mae'n hanfodol bod llywodraethau cenedlaethol a lleol yn arwain sgyrsiau anodd am y cyfrifoldebau newidiol rhwng cyrff statudol a dinasyddion er mwyn adeiladu Cymru iachach, decach a mwy gwydn. Mae'r pandemig wedi annog unigolion i ailedrych ar eu rôl yn eu cymunedau ac wedi ei gwneud yn ofynnol i bob sector addasu a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r strategaeth yn nodi cynlluniau i gynyddu gwirfoddoli a buddsoddi mewn cymorth lleol sy'n bwysig i bobl hŷn. Bydd y camau hyn yn helpu i greu cymunedau mwy cydlynol.
- *Nod 4: Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran* – mae'r nod hwn yn nodi camau i leihau nifer y bobl hŷn sy'n byw mewn tlodi drwy gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gredyd pensiwn, a buddsoddi yn yr economi sylfaenol. Mae felly'n cyfrannu at greu Cymru fwy llewyrchus.

Mae'r strategaeth hefyd yn hyrwyddo Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang drwy annog a chefnogi awdurdodau lleol i ymuno â Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd lle gallant gael gafael ar gymorth ac arbenigedd byd-eang. Mae ymgysylltu dinesig yn rhan hanfodol o raglen cymunedau o blaid pobl hŷn Sefydliad Iechyd y Byd. Er mwyn ymuno â Rhwydwaith Dinasoedd a Chymunedau o blaid pobl hŷn Sefydliad Iechyd y Byd, rhaid i arweinwyr ddangos eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl hŷn. Mae'r dull hwn hefyd yn cefnogi Pum Ffordd o Weithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n canolbwyntio ar gynnwys, cydweithio ac atal. Drwy wrando ar brofiadau pobl hŷn heddiw, gall cymunedau gwledig a threfol gynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### 8.3 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a’i gwerthuso wrth i’r cynnig ddatblygu ac ar ôl iddo ddod i ben?

Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru  y Ganolfan ar gyfer Heneiddio Arloesol ym Mhrifysgol Abertawe, a gydnabyddir yn rhyngwladol, i ddefnyddio’r mesur hwn i feincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru yn erbyn 3 gwlad arall y DU - Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Diweddarwyd y mesur hwn yn 2021.

Defnyddiodd y Ganolfan ar gyfer Heneiddio Arloesol ystod o fesurau i greu Mynegai Oedran y DU. Mae'r canlyniadau ar gyfer Mynegai Oedran cyffredinol y DU yn dangos bod Cymru yn y safle cyntaf gyda'r sgôr gyffredinol uchaf, yna'r Alban (ail), Lloegr (trydydd), a Gogledd Iwerddon yn olaf  (pedwerydd). Mae hyn yn dangos bod llawer o bethau yr ydym yn eu gwneud yn dda a dylem ymfalchïo yn y ffaith bod tystiolaeth glir i'w gweld o'n hymrwymiad i gefnogi pobl hŷn.

I gyd-fynd â'r strategaeth hon, rydym wedi cyhoeddi canlyniadau llawn Mynegai Heneiddio'r DU ac adroddiad yn meincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru.

**Yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth ym mis Medi 2021, rydym wedi gweithio gydag aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio i lunio cynllun cyflawni ategol. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r camau gweithredu a monitro cynnydd - bydd diweddariadau'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Byddwn hefyd yn rhannu diweddariadau chwarterol gyda Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio i'w trafod ac i graffu arnynt.**

**Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn ac awdurdodau lleol i fonitro cynnydd tuag at aelodaeth o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau a Dinasoedd sy'n Ystyriol o Oedran.**

Wrth symud ymlaen, bydd Mynegai Heneiddio'r DU yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol i olrhain pa mor dda y mae Cymru'n cefnogi ac yn grymuso pobl hŷn o'i chymharu â'r tair gwlad arall.